# 10 tip i fy helpu i ddysgu siarad

Siarad Gyda Fi
Talk With Me





## Mwy am y llyfryn hwn

**Dysgu siarad yw un o'r sgiliau pwysicaf bydd plant yn eu datblygu. Pan fydd oedolion yn siarad gyda phlant, maen nhw'n helpu'r ymennydd i dyfu, gan roi'r dechrau gorau mewn bywyd i'r plentyn. Gall chwarae, gwrando a sgwrsio gyda phlant eu helpu i ddysgu siarad. Bydd hyn yn golygu eu bod yn gallu gwneud ffrindiau yn haws a'u helpu i deimlo'n hapusach.**

Mae'r llyfryn hwn wedi'i ddatblygu i rieni a gofalwyr ei rannu â'u plant. Ei nod yw cefnogi pob rhiant a gofalwr i helpu ei blentyn i ddysgu siarad o'r cychwyn cyntaf.

## Sut i ddefnyddio'r llyfryn hwn



Bydd y swigod siarad porffor hyn yn dweud mwy am sut mae plant yn dysgu siarad a'r hyn mae modd ei wneud i helpu.



Edrychwch am y blychau gwyrdd hyn. Byddan nhw'n rhoi syniadau o weithgareddau syml i'w gwneud gyda'ch plentyn i'w helpu i siarad.



## 1 Dechreua siarad gyda fi cyn i fi gael fy ngeni



- Rwy'n gallu clywed synau o 24 wythnos o feichiogrwydd.
- Rwy'n dwlu ar wrando arnat ti'n canu i fi cyn i fi gael fy ngeni.
- Ar ôl fy ngeni, rwy'n adnabod yn gyflym y lleisiau a glywais yn y groth.




## 2 Galla'i ddysgu ein hiaith a'n diwylliant gen ti

- Rwy'n gallu dysgu unrhyw iaith o adeg fy ngeni.
- Rwy'n gallu dysgu mwy nag un iaith ar yr un pryd. Rwyt ti'n gallu dysgu gyda fi.
- Siarad gyda fi yn yr iaith rwyt ti'n ei gwybod orau.



## 3 Ein lle gorau yw wyneb yn wyneb

- Cyn i fi allu siarad, rwy'n dweud sut rwy'n teimlo drwy gyswllt llygaid, gwenu a chrio.
- Pan fyddwn ni wyneb yn wyneb rwyt ti'n gallu gweld beth sydd o ddiddordeb i fi a beth rwy'n trio'i ddweud.
- Rwy'n hoffi edrych arnat ti wrth siarad.



"Siarad gyda fi dros amser bwyd am y bwyd rydyn ni'n ei fwyta."




## 4 Cana gân i fi unrhyw bryd




- Os ydw i'n gwybod llawer o ganeuon a rhigymau, byddaf i'n dysgu darllen yn haws.
- Rwy'n hoffi clywed yr un caneuon a rhigymau dro ar ôl tro.
- Wrth ganu, rwy'n hoffi ymuno yn y symudiadau a'r geiriau.




"Ffeindia rigwm sy'n gwneud i mi wenu ac ymuno yn y symudiadau."

## 5 Beth am siarad a chwarae bob dydd



- Siarada gyda fi wrth chwarae a byddaf i'n dysgu geiriau newydd.
- Rwy'n mwynhau chwarae gyda ti. Os ydw i'n dewis y gêm efallai byddaf i'n chwarae yn hirach.
- Amser bwyd, amser cewyn ac amser bath, mae unrhyw amser yn amser siarad a chwarae.






"Eistedda tedi gyda ni amser bwyd a siarad gyda fe hefyd!"

## 6 Beth am edrych ar lyfrau gyda'n gilydd






- Mae siarad am y lluniau yn y llyfr yn fy helpu i ddysgu geiriau newydd.
- Dwi ddim yn gallu darllen ond rwy'n dwlu ar wrando ac ymuno wrth ddarllen gyda'n gilydd.
- Rwy'n hoffi pan rwyt ti'n defnyddio lleisiau a wynebau doniol wrth adrodd y stori.






"Ffeindia lyfrau gyda lluniau mawr a siarad gyda fi am beth sydd i'w weld."

## 7 Siarada gyda fi am beth gallwn ni ei weld



- Os rwy'n clywed yr un geiriau dro ar ôl tro mae'n fy helpu i'w cofio nhw.
- Dweud beth sydd o amgylch fi hyd yn oed cyn i fi allu siarad.
- Rho amser i fi ymuno ac yna copïo fy ngeiriau yn ôl i fi.



"Pwyntia at beth sydd i'w weld a'i enwi."




## 8 Beth am droi 'amser sgrin' yn 'amser ti a fi'!



- Dwi ddim yn gallu gwrando ar ddau beth ar yr un pryd, mae'n haws i fi ddysgu os yw'r teledu a sgriniau i ffwrdd.
- Mae amser siarad yn arbennig, felly edrych arnaf i nid y ffôn.
- Siarad gyda fi am beth sydd i'w weld, os ydyn ni'n gwylio sgrin.






"Defnyddia fy nheganau i chwarae hefyd wrth i ni ganu cân ar y sgrin."

## 9 Ychwanega air at beth rwyt ti wedi fy nghlywed i'n dweud



- Rwy'n dysgu oddi wrthyt ti, felly beth am gymryd tro i siarad gyda'n gilydd.
- Wrth i fi ddysgu siarad, cofia fy nghanmol hyd yn oed os yw'n swnio fel parablu.
- Dwed wrtha i beth rydw i wedi'i ddweud ac yna ychwanega air i fi wybod beth i'w ddweud y tro nesa.








"Pan fyddaf i'n trio dweud rhywbeth, dwed y gair cywir yn ôl ac ychwanega air arall."

## 10 Dwi wrth fy modd yn siarad gyda phawb!

- Rwy'n hoffi edrych ar wynebau a gwrando ar bobl yn siarad gyda fi.
- Mae'n haws i fi siarad a pharablu heb botel neu dymi.
- Rwy'n dwlu ar siarad gyda fy ffrindiau, teulu, teganau ac anifeiliaid anwes!







"Rwy'n cael picnic gyda fy hoff bobl ac yn siarad am y bwyd rydyn ni'n ei hoffi."

Siarad Gyda Fi — Talk With Me



**I gael rhagor o gyngor a gwybodaeth, cysylltwch â'ch ymwelydd iechyd neu ewch i'r gwefan hwn:**

www.llyw.cymru/siarad-gyda-fi

Cynhyrchwyd y llyfryn hwn gan Therapyddion Iaith a Lleferydd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Thîm Iechyd Cyhoeddus Gwent Aneurin Bevan.

Datblygwyd y cysyniad dylunio gwreiddiol gan Scarlet Design International Ltd (www.scarletdesign.com) a datblygwyd y darluniau yn y llyfryn hwn gan Laura Wood (www.laurawoodillustration.com).

Mae rhieni o grwpiau amrywiol wedi cyfrannu at ddatblygu'r llyfryn hwn. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys:

Canolfan Dechrau'n Deg Cefn Golau (Blaenau Gwent), Grwp Babi Ioga - Cymraeg i Blant (Blaenau Gwent), Rhwydwaith Rhieni Caerffili, Canolfan Dechrau'n Deg Acorn (Sir Fynwy), Canolfan Dechrau'n Deg Seebreeze (Casnewydd), Ti a Fi (Torfaen).